| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Dyddiad: | 6 Rhagfyr 2016 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 14 RHAGFYR 2016** am **9.30 AM** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 9 - 10)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 11 - 18)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2016 (copi wedi'i atodi).

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 - 10) -**

**5 RHIF Y CAIS 03/2016/0300/PF - TIR ODDI AR FFORDD Y FICERDY, LLANGOLLEN** (Tudalennau 19 - 52)

Ystyried cais i godi 95 o dai, ynghyd â ffyrdd cysylltiedig, mannau agored a gwaith cysylltiedig ar dir oddi ar Ffordd y Ficerdy, Llangollen (copi ynghlwm).

**6 RHIF Y CAIS 03/2016/0845/LB – BWTHYN PEN Y BEDW, BIRCH HILL, LLANGOLLEN** (Tudalennau 53 - 70)

Ystyried Cais Adeilad Rhestredig ar gyfer disodli strwythur to presennol ar heulfan yn y cefn i do gwydr; adfer strwythur y to pyramid sgwâr yn y cefn, ffurfio gorchudd to clad sinc lliw llechen naturiol uwchben storfa i'r cefn a newid gwteri a pheipiau landeri i haearn bwrw ym Mwthyn Pen Y Bedw, Birch Hill, Llangollen (copi ynghlwm).

**7 RHIF Y CAIS 23/2016/0875/PF – FFOREST CLOCAENOG, SARON, DINBYCH** (Tudalennau 71 - 98)

Ystyried cais i godi is-orsaf drydan 132kV a gwaith cysylltiedig (cais diwygiedig) yng Nghoedwig Clocaenog, Saron, Dinbych (copi ynghlwm).

**8 RHIF Y CAIS 43/2016/0432/PF – YSTÂD DDIWYDIANNOL PARC DYFFRYN, FFORDD PENDYFFRYN, PRESTATYN** (Tudalennau 99 - 124)

Ystyried cais i ddymchwel adeiladau presennol a chodi siop fwyd (Dosbarth A1), maes parcio a meysydd gwasanaeth, mynediad i gerbydau a cherddwyr a gwaith cysylltiedig ar Ystâd Ddiwydiannol Parc Dyffryn, Ffordd Pendyffryn, Prestatyn (copi ynghlwm).

**9 RHIF Y CAIS 45/2016/0740/PF - THEATR Y PAFILIWN A HEULFAN A THIR CYFAGOS/MEYSYDD PARCIO CEIR A CHOETS, EAST PARADE, Y RHYL** (Tudalennau 125 - 150)

Ystyried cais i ailddatblygu 4.25 hectar o dir gan gyfuno'r elfennau (Llawn/Amlinellol) hybrid canlynol :- Dymchwel yr hen "Heulfan" ac ail-wneud tu allan Theatr y Pafiliwn sydd ynghlwm â hi sy'n cynnwys tros-gladin. (Llawn)- Adeiladu Canolfan Arddangos/Ddigwyddiadau Dosbarth D2 4,000m2 fel estyniad i Theatr y Pafiliwn (Amlinellol)- Adeiladu gwesty Dosbarth C1 73 ystafell wely 2,825m2 ar wahân. (Llawn) - Codi 2 Fwyty i Deuluoedd Dosbarth A3 (Amlinellol)- Cadw ac ailddefnyddio ciosg manwerthu presennol ac adeilad sied trên tir at ddefnydd manwerthu/hamdden/cymunedol (Llawn)- Maes parcio newydd wedi'i ailgynllunio i geir/coetsis (Llawn)- Gwelliannau a newidiadau i fynedfa cerbydau ac ardaloedd troi presennol. (Llawn) – manylion tirlunio caled a meddal (Llawn/Amlinellol) yn Theatr y Pafiliwn, Heulfan a thir/meysydd parcio ceir a choetsis cyfagos, East Parade, Y Rhyl (copi ynghlwm).

**10 RHIF Y CAIS 47/2016/0997/PF – GROESFFORDD TREMEIRCHION** (Tudalennau 151 - 162)

Ystyried cais i godi uchder wal terfyn flaen Groesffordd, Tremeirchion (copi ynghlwm)

**11 CADARNHAU DAU ORCHYMYN CADW COED CYNGOR SIR DDINBYCH MEWN PERTHYNAS Â THIR YN ARDAL GALLT MELYD** (Tudalennau 163 - 214)

Ystyried adroddiad yn cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Rhif 03/2016 Cyngor Sir Ddinbych sy'n ymwneud â thir yn Ffordd Hendre, Gallt Melyd a Gorchymyn Cadw Coed Rhif 04/2016 Cyngor Sir Ddinbych sy'n ymwneud â thir ym Maes Meurig, Gallt Melyd.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Ray Bartley (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Bill Cowie (Is-Gadeirydd)

Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Meirick Davies
Stuart Davies
Peter Arnold Evans
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Alan James
Alice Jones
Pat Jones
Barry Mellor
Bob Murray
Dewi Owens
Merfyn Parry
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Gareth Sandilands
David Simmons
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned